Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# Diwygio Rheolau Sefydlog: Grwpiau gwleidyddol a grwpiadau (Rheolau Sefydlog 1.3 ac 11.3)

Chwefror 2026

Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), y Pwyllgor Busnes sy’n gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Senedd, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio.

Mae'r adroddiad hwn yn argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog a fydd yn codi'r trothwyon ar gyfer ffurfio grwpiau gwleidyddol a grwpiadau o leiafswm o dri Aelod (lle mae pob trothwy wedi'i osod ar hyn o bryd) i leiafswm o bum Aelod.

Cynigir y newidiadau hyn wrth ddisgwyl y cynnydd sydd ar ddod yn nifer yr Aelodau o’r Senedd, o 60 i 96. Os cânt eu derbyn, bydd y newidiadau arfaethedig yn dod i rym ar ddechrau'r Senedd nesaf.

Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r cynigion i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog fel yn Atodiad A. Mae'r Rheolau Sefydlog diwygiedig, os cânt eu cymeradwyo, yn Atodiad B.

# Cynnwys


**1. Y cefndir .......... 3**

**2. Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes .......... 4**

**3. Amseru .......... 4**

**4. Penderfyniad .......... 4**

Grwpiau Gwleidyddol (Rheol Sefydlog 1.3) .......... 4

Grwpiadau Gwleidyddol (Rheol Sefydlog 11.3) .......... 5

Presenoldeb yn y Pwyllgor Busnes (Rheol Sefydlog 11.5(iii)) .......... 6

**Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog, a nodiadau esboniadol .......... 8**

**Atodiad B: Rheolau Sefydlog fel y'u diwygiwyd .......... 10**

# 1. Y cefndir

**1.** Mae adran 1 o Ddeddf Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) 2024 ("Deddf 2024") yn diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ("Deddf 2006") i ddarparu ar gyfer 16 o etholaethau'r Senedd, pob un â chwe sedd. Mae hyn yn golygu y bydd gan y Senedd 96 Aelod, ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo un neu ragor o seddau yn y Senedd yn wag.

**2.** Ar 16 Hydref 2024, wrth ddisgwyl y newidiadau hyn, sefydlodd y Senedd Bwyllgor Senedd y Dyfodol[1] i drafod a chyflwyno adroddiadau ar y canlynol (ymhlith pethau eraill):

> [...] *trothwyon a osodir ar hyn o bryd yn y Rheolau Sefydlog ar gyfer nifer yr Aelodau sy'n ofynnol at wahanol ddibenion, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) ffurfio grwpiau gwleidyddol, diswyddo deiliaid swyddi, a chworwm.*[2]

**3.** Cyhoeddodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol ei adroddiad ar ei 'Adolygiad o'r Trothwyon yn y Rheolau Sefydlog' ar 28 Chwefror 2025, O ran y trothwyon ar gyfer ffurfio grwpiau gwleidyddol a grwpiadau, argymhellodd Pwyllgor Senedd y Dyfodol:

- mewn Senedd a chanddi 96 o Aelodau, y dylid cynyddu'r trothwy a bennir yn Rheol Sefydlog 1.3, sy'n ei gwneud yn ofynnol i o leiaf dri Aelod ffurfio grŵp gwleidyddol. *[Argymhelliad 1]*

- bod y Pwyllgor Busnes yn ystyried ar ba lefel y dylid pennu trothwy uwch ar gyfer grwpiau gwleidyddol, a hefyd roi ystyriaeth ehangach i'r trothwy ar gyfer grwpiau, hawliau Aelodau nad ydynt mewn grwpiad neu grŵp gwleidyddol, a'r egwyddor bod yr holl Aelodau o'r Senedd yn cael eu galluogi i gymryd rhan yn y broses o benderfynu ar fusnes y Senedd *[Argymhelliad 2]*

---

[1] Cadeiriwyd Pwyllgor Senedd y Dyfodol gan y Dirprwy Lywydd, ac roedd yn cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a phob grŵp gwleidyddol yn y Senedd. Cynigiwyd cyfle i Aelodau nad oeddent yn aelodau o grwpiau gwleidyddol fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor yn unol â Rheol Sefydlog 17.49.

[2] Mae gwybodaeth am Bwyllgor Senedd y Dyfodol ar gael ar dudalen we y Pwyllgor.

# 2. Materion i'w hystyried gan y Pwyllgor Busnes

**4.** Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud â dim ond argymhellion 1 a 2 o adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol; ymdrinnir ag ystyriaeth y Pwyllgor Busnes o argymhellion 3 i 14 mewn adroddiad ar wahân.

**5.** Ystyriodd y Pwyllgor Busnes argymhellion 1 a 2 o adroddiad Pwyllgor Senedd y Dyfodol yn ei gyfarfodydd ar 19 Mehefin, 18 Medi a 16 Hydref.

# 3. Amseru

**6.** Gan mai bwriad y newidiadau arfaethedig yw adlewyrchu'r cynnydd yn nifer yr Aelodau, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig y dylent ddod i rym ar ddechrau'r Seithfed Senedd.

# 4. Penderfyniad

**7.** Mae'r Pwyllgor Busnes yn cynnig y dylai isafswm y trothwyon ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol yn unol â Rheol Sefydlog 1.3 a grwpiad yn unol â Rheol Sefydlog 11.3 aros yn gyfunion, ac y dylid codi pob un i isafswm o bum Aelod.

## Grwpiau Gwleidyddol (Rheol Sefydlog 1.3)

**8.** Caiff y diffiniad o grwpiau effaith eang ar weithrediad y Senedd, gan gynnwys mewn perthynas ag aelodaeth Comisiwn y Senedd a'r Pwyllgor Busnes, trefn busnes y Cyfarfod Llawn, aelodaeth pwyllgorau, a'r broses o graffu ar ddeddfwriaeth. Er enghraifft:

- mae gan grwpiau rôl ganolog wrth ethol, ffurfio a gweithredu nifer o swyddi a chyrff gan gynnwys y Llywydd a'r Dirprwy Lywydd / Dirprwy Lywyddion, y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd;
- yn y Cyfarfod Llawn, mae rhaid i amser fod ar gael ar gyfer cynigion a gynigir gan grwpiau nad oes ganddynt rôl weithredol, a gelwir Arweinwyr a Llefaryddion sy'n cynrychioli grwpiau i ofyn cwestiynau heb rybudd yn ystod sesiynau cwestiynau i'r Prif Weinidog a Gweinidogion Cymru;

- mae rhaid i ddyraniad cadeiryddion pwyllgorau i grwpiau, a gweddill aelodaeth pwyllgorau, adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau y mae'r Aelodau'n perthyn iddynt.

**9.** Pe bai'r trothwy(on) a ddewisir yn arwain at nifer a chyfran sylweddol o Aelodau'n methu ffurfio grŵp, gallant gael eu heithrio o sianeli arferol rheoli busnes, cyfranogiad a chynrychiolaeth. Gallai hyn gael nifer o ganlyniadau posibl, gan gynnwys:

- goblygiadau o ran maint pwyllgorau (oherwydd y gofyniad i'r holl Aelodau nad ydynt mewn grŵp gwleidyddol gael cynnig o leiaf un lle ar bwyllgor) a chworwm (gan na fyddai modd dirprwyo ar ran Aelodau nad ydynt yn aelod o grŵp, yn unol â Rheol Sefydlog 17.48);

- amheuaeth o ran cyfreithlondeb pwyllgorau os na chynrychiolir un blaid (neu fwy) arnynt;

- perygl o ran y posibilrwydd o heriau i gyfreithlondeb, a mwy o wrthwynebiad, i benderfyniadau a wneir gan y Pwyllgor Busnes a Chomisiwn y Senedd yn deillio o'u gallu i adlewyrchu, cynrychioli a gwneud penderfyniadau ar gyfer y Senedd yn ei chyfanrwydd. Gallai hyn gynnwys pleidleisio yn erbyn cynigion y Pwyllgor Busnes yn y Cyfarfod Llawn, os na fyddai penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes yn adlewyrchu'r cydbwysedd barn yn y Senedd gyfan – e.e. pe bai mwyafrif y llywodraeth ar y Pwyllgor Busnes ond nid yn y Senedd ei hun.

**10.** Fel y nodwyd gan Bwyllgor Senedd y Dyfodol, byddai cynnydd cymesur i'r trothwy presennol o ran nifer yr Aelodau sy'n ofynnol ar gyfer ffurfio grŵp gwleidyddol yn arwain at drothwy o bump mewn Senedd â 96 o Aelodau. Yn sgil ansicrwydd ynghylch nifer bosibl a maint cymharol y pleidiau gwleidyddol a fydd yn cael eu hethol gan system etholiadol newydd y Senedd, trafododd y Pwyllgor Busnes y byddai cynnydd cymesurol i'r trothwy ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn llai tebygol o arwain at y risg o ganlyniadau anfwriadol ar ddechrau'r Seithfed Senedd o'i gymharu â throthwy uwch.

## Grwpiadau Gwleidyddol (Rheol Sefydlog 11.3)

**11.** Mae'r trothwy ar wahân ar gyfer ffurfio grwpiad yn ymwneud â chynrychiolaeth ar y Pwyllgor Busnes yn unig. Ei ddiben yw sicrhau y gall Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Busnes. Mae hyn yn galluogi'r Pwyllgor Busnes i wneud penderfyniadau ar y sail ehangaf bosibl, ond gan geisio cadw nifer yr Aelodau sy'n mynd i gyfarfodydd y Pwyllgor

Busnes yn hawdd ei reoli hefyd. Roedd y Pwyllgor Busnes o'r farn y dylai'r trothwy hwn aros yn gyfunion â'r trothwy ar gyfer ffurfio grwpiau gwleidyddol ac y dylid ei gynyddu hefyd, felly, ar sail gymesur, i bump.

## Presenoldeb yn y Pwyllgor Busnes (Rheol Sefydlog 11.5(iii))

**12.** Trafododd y Pwyllgor Busnes hefyd y cyfleuster presennol i Aelodau, nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol ac nad ydynt yn gallu ffurfio grŵp (am yr unig reswm nad oes digon o Aelodau i ffurfio un), i fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes ac i bleidleisio (Rheol Sefydlog 11.5(iii)).

**13.** Nododd y Pwyllgor Busnes fod y mecanwaith hwn - ynghyd â Rheol Sefydlog 11.3 - yn darparu diben cyfansoddiadol pwysig. Gyda'i gilydd, mae'r Rheolau Sefydlog hyn yn darparu'r potensial i bob Aelod naill ai gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Busnes, neu fynd i gyfarfodydd y Pwyllgor Busnes ac i bleidleisio fel Aelod unigol (os nad oes digon o Aelodau i ffurfio grwpiad). Mae hyn yn bwysig o ystyried swyddogaethau'r Pwyllgor Busnes ar gyfer pethau fel: penderfynu ar drefn busnes y Senedd yn y Cyfarfod Llawn; cynnig teitlau a chylchoedd gwaith pwyllgorau; ac argymell diwygiadau i Reolau Sefydlog y Senedd.

**14.** Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor Busnes yn cydnabod y gallai'r Rheol Sefydlog hon, yn dibynnu ar gyfansoddiad gwleidyddol y Seithfed Senedd, fod yn broblem, er enghraifft:

- Pe na bai cyfran sylweddol o'r Aelodau yn perthyn i grŵp gwleidyddol ond na allant ffurfio grŵp at ddibenion cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Busnes; gallai hyn arwain at Bwyllgor Busnes nad yw'n adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad gwleidyddol y Senedd yn ei chyfanrwydd; neu

- Pe bai Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol yn dod yn aelodau o'r weithrediaeth, lle byddai Aelodau o'r fath yn cael eu cyfrif tuag at y rhai sydd ar gael i ffurfio grwpiad, ond na fyddent—mewn gwirionedd ymarferol—ar gael i ffurfio un. Mewn achos o'r fath, mae'n bosibl na fydd gan Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol unrhyw lwybr ymarferol i gynrychiolaeth ar y Pwyllgor Busnes ac na fyddant yn gallu bod yn bresennol a phleidleisio fel Aelodau unigol—gan fod nifer yr Aelodau nad ydynt yn perthyn i grŵp gwleidyddol sydd ar y trothwy gofynnol (neu’n uwch), tra bod nifer yr Aelodau sydd ar gael mewn gwirionedd (h.y. nad oes ganddynt rôl weithredol) yn is na'r trothwy.

**15.** Er nad yw'r Pwyllgor Busnes yn cynnig unrhyw ddiwygiadau ar hyn o bryd i Reol Sefydlog 11.5(iii), mae'n argymell bod Pwyllgor Busnes y Seithfed Senedd yn adolygu'r trefniant hwn er mwyn sicrhau bod aelodaeth / presenoldeb y Pwyllgor Busnes:

- yn adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Senedd, cyn belled ag y bo modd; ac
- yn parhau i allu cael ei reoli ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau effeithiol.

**16.** Ar 11 Rhagfyr 2025, cytunodd y Pwyllgor Busnes yn ffurfiol i gynnig y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog a amlinellir yn Atodiad A. Gwahoddir y Senedd i gymeradwyo'r Rheolau Sefydlog newydd arfaethedig yn Atodiad B.

# Atodiad A: Newidiadau arfaethedig i Reolau Sefydlog, a nodiadau esboniadol

| | |
|---|---|
| **RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau** | |
| **Grwpiau Gwleidyddol** | Cadw'r is-bennawd |
| 1.3 At ddibenion y Ddeddf, ystyr grŵp gwleidyddol yw:<br>(i) grŵp a chanddo o leiaf bump ~~dri~~ Aelod sy’n perthyn i’r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd; neu<br>(ii) pump ~~tri~~ neu fwy o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 1.3(i), sydd wedi hysbysu’r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol, ac wedi bodloni’r Llywydd bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm y nifer o Aelodau sy'n ofynnol i ffurfio grŵp gwleidyddol. Mae’r cynnydd arfaethedig o dri i bumb yn fras gymesur â’r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |
| **RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes** | |
| **Y Pwyllgor Busnes** | Cadw'r is-bennawd |
| 11.3 Cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i’r Gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i benodi, yn aelodau o’r Pwyllgor, y Llywydd, un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd ac (os bydd unrhyw bump ~~dri~~ neu fwy o Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn penderfynu ffurfio grwpiad at ddibenion Rheol Sefydlog 11) Aelod a enwebir gan bob grwpiad o Aelodau. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 11.3. | Diwygio'r Rheol Sefydlog<br>Byddai'r newid arfaethedig yn cynyddu isafswm y nifer o Aelodau sy'n ofynnol i ffurfio grwpiad at ddibenion cael eu cynrychioli ar y Pwyllgor Busnes. Mae’r cynnydd arfaethedig o dri i bumb yn fras |

| | |
|---|---|
| | gymesur â'r cynnydd yn aelodaeth y Senedd. |

# Atodiad B: Rheolau Sefydlog fel y’u diwygiwyd

**RHEOL SEFYDLOG 1 – Aelodau**

Grwpiau Gwleidyddol

1.3 At ddibenion y Ddeddf, grŵp gwleidyddol yw:

(iii) grŵp a chanddo o leiaf bump Aelod sy’n perthyn i’r un blaid wleidyddol gofrestredig a enillodd o leiaf un sedd yn etholiad blaenorol y Senedd; neu

(iv) pump neu fwy o Aelodau nad ydynt yn bodloni'r meini prawf yn Rheol Sefydlog 1.3(i), sydd wedi hysbysu’r Llywydd eu bod yn dymuno cael eu trin fel grŵp gwleidyddol, ac wedi bodloni’r Llywydd bod amgylchiadau eithriadol yn gymwys.

**RHEOL SEFYDLOG 11 – Trefn Busnes**

Y Pwyllgor Busnes

11.3. Cyn gynted â phosibl ar ôl etholiad y Senedd, rhaid i’r Gweinidog sy’n gyfrifol am fusnes y llywodraeth gyflwyno cynnig i benodi yn aelodau o’r Pwyllgor, y Llywydd, un Aelod a enwebir gan bob grŵp gwleidyddol a gynrychiolir yn y Senedd ac (os bydd unrhyw bump neu fwy o Aelodau nad ydynt yn aelodau o grŵp gwleidyddol yn penderfynu ffurfio grwpiad at ddibenion Rheol Sefydlog 11) Aelod a enwebir gan bob grwpiad o Aelodau. Ni chaniateir cyflwyno gwelliannau i gynnig o dan Reol Sefydlog 11.3.